

# Rhyddid

Tasg yr Eglwys Gristnogol a phob Cristion yw atgoffa'r byd o bresenoldeb Duw, a rhyddhau Duw o lyffetheiriau'r addoldy a thystio iddo yn y byd, yn y gymdeithas, ar yr aelwyd, ac yn y gweithle. Rhyddhawn Dduw o hualau a chaethiwed ein haddoldai.

## EMYNAU

**Yng nghwmni Duw cawn ein rhyddhau o'r cadwynau sy'n ein dal:**

Anturiaf ymlaen  
 drwy ddyfroedd a tân  
 yn dawel yng nghwmni fy Nuw;  
 er gwanned fy ffydd  
 enillaf y dydd,  
 mae Ceidwad pechadur yn fyw.

David Davies (*Caneuon Ffydd*: 225)

**Dyhead sydd yn y pennill hwn i dynnu'r enaid o gaethiwed i ryddhad a gorfoledd:**

Tyn fy enaid o'i gaethiwed,  
 gwawried bellach fore ddydd,  
 rhwyga'n chwilfriw ddorau Babel,  
 tyn y barrau heyrn yn rhydd;  
 gwthied caethion yn finteioedd  
 allan, megis tonnau llif,  
 torf a thorf, dan orfoleddu,  
 heb na diwedd fyth na rhif.

William Williams (*Caneuon Ffydd*: 262)

**Nodau amgen pob rhyddid yw teimlo'r hedd, cariad, ffydd, gobaith a'r llawenydd sy'n llifo fel yr afon:**

Hedd sy'n llifo fel yr afon,  
 llifo drwot ti a mi,  
 llifo allan i'r anialwch,  
 rhyddid bellach ddaeth i ni.

Anad. *cyf.* Enid Morgan (*Caneuon Ffydd*: 281)

**Rhyw ddydd bydd rhyddid perffaith; 'y maglau wedi eu torri a'm traed yn gwbl rydd':**

Os dof fi drwy'r anialwch  
 rhyfeddaf fyth dy ras,  
 a'm henaid i lonyddwch  
 'r ôl ganwaith golli'r maes;  
 y maglau wedi eu torri,  
 a'm traed yn gwbl rydd:  
 os gwelir fi fel hynny,  
 tragwyddol foli a fydd.

1 Casgliad Harri Siôn 2 Dafydd Morris

3 Hannah Joshua (*Caneuon Ffydd*: 718)

**Mae cariad rhyfeddol Duw yn ein rhyddhau o gaethiwed carchar i'r heulwen olau:**

Rhyfeddol a rhyfeddol  
 erioed yw cariad Duw:  
 ei hyd, ei led, ei ddyfnder,  
 rhyw fôr diwaelod yw;  
 a'i uchder annherfynol  
 sydd uwch y nefoedd lân,  
 Hosanna, Haleliwia!  
 fy enaid, weithian cân.

Dafydd William (*Caneuon Ffydd*: 190)

**Chwiliwn am nerth a gras i fynd ymlaen i'r uchelfannau a hynny trwy rwystrau maith:**

Duw pob gras a Duw pob mawredd,  
 cadarn fo dy law o'n tu;  
 boed i'th Eglwys wir orfoledd  
 a grymuster oddi fry:  
 rho ddoethineb, rho wroldeb,  
 'mlaen ni gerddwn oll yn hy.

H. E. Fosdick cyf. D. B. Jones (*Caneuon Ffydd*: 818)

## GWEDDIAU

### **O Dduw, daethost i'n byd yn Iesu Grist i'n rhyddhau o'r hualau sy'n ein caethiwo:**

Arglwydd Dduw, ein rhyddhäwr,  
 daethost atom yn dy Fab Iesu Grist,  
 heibio i bob pellter a phob pechod,  
 i ddwyn newyddion da i dlodion,  
 i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion,  
 ac i gynnig gobaith i'r gorthrymedig:  
 diolchwn i ti am rym ac addewid yr efengyl,  
 a gweddiwn arnat ein harwain i'r rhyddid  
 sy'n eiddo i ni yng Nghrist. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

### **Yn Iesu Grist, gwyddost yn iawn beth yw caethiwed, creulondeb ac unigrwydd:**

Yn dy enw,  
 gweddiwn dros dy bobl,  
 ein brodyr a'n chwiorydd a garcharwyd ar gam – carcharorion cydwybod,  
 y rhai a daflwyd i'r carchar oherwydd eu syniadau a'u daliadau  
 yn cael eu poenydio mewn rhyw swyddfa, cell neu seler y funud hon,  
 rywle yn y byd. Amen.

Owain Llyr Evans

### **Trwy faddeuant a thrugaredd mae Mab sy'n barod i'n rhyddhau:**

Diolch fod y Mab yn rhyddhau'n wir y sawl sy'n dod ato am faddeuant a thrugaredd, a diolch mai rhyddid i wasanaethu dy enw mawr, ac nid penrhyddid yw hwn. Diolch am y rhyddid a gawn mewn gweddi, mewn addoliad, wrth ddarllen dy air, y rhyddid i dy glywed di yn siarad, i ddarganfod dy ewyllys, i dy garu a'th ddilyn i ddyrchafu enw yr Arglwydd Iesu. Amen.

Meirion Morris

### **Mor hawdd yw mynd yn gaeth i'r pethau tymhorol a cholli golwg ar y pethau tragwyddol:**

Mae cymaint o bethau ar gael yn y byd a hawdd yw inni fynd yn gaeth iddynt a chael ein rheoli ganddynt. Cofiw'n eiriau Iesu, 'Ni allwn wasanaethu dau feistr.' Mae arnom angen rhyddid o afael pethau fel y cawn drysori pethau'r nefoedd sy'n dragwyddol, nid pethau'r byd sydd dros dro yn unig. Amen.

Brian Wright

### **Boed i allwedd dy gariad ein rhyddhau ni o garchar ein bywydau:**

Ie, Arglwydd, carcharorion ydym.

Erfyniwn am ryddhad, am gael clywed 'goriad dy gariad yn y clo yn agor drws ein carchar.

Dyro inni'r ewyllys a'r nerth i gerdded drwyddo gyda thi. Amen.

Owain Llyr Evans

## **ADNODAU**

### **Neges Iesu i'r Iddewon oedd iddynt aros yn ei air a byddai'r gwirionedd yn eu rhyddhau:**

Cewch wybod y gwirionedd, a bydd y gwirionedd yn eich rhyddhau.

Ioan 8: 32

### **Gan fod Crist wedi'n prynu i ryddid mae'n rhaid inni sefyll yn gadarn a diysgog:**

I ryddid y rhyddhaodd Crist ni. Safwch yn gadarn, felly, a pheidiwch â phlygu eto i iau caethiwed.

Galatiaid 5: 1

**Neges o ryddhad oedd neges gyntaf Iesu pan gododd i ddarllen yr Ysgrythur yn y synagog:**

“Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf,  
oherwydd iddo f’eneinio  
i bregethu’r newydd da i dlodion.  
Y mae wedi f’anfon i gyhoeddi rhyddhad i garcharorion,  
ac adferiad golwg i ddeillion,  
i beri i’r gorthrymedig gerdded yn rhydd,  
i gyhoeddi blwyddyn ffafwr yr Arglwydd.”

Luc 4: 18–19

**Cawsom ein prynu i ryddid trwy Iesu Grist a hynny oddi wrth felltith y gyfraith:**

Prynodd Crist ryddid i ni oddi wrth felltith y Gyfraith pan ddaeth, er ein mwyn, yn wrthrych melltith, oherwydd y mae’n ysgrifenedig: “Melltith ar bob un a grogir ar bren!”

Galatiaid 3: 13

**Rydym wedi’n rhyddhau o hualau pechod ond bellach rydym yn gaethweision cyfiawnder:**

Ond yn awr yr ydych wedi eich rhyddhau oddi wrth bechod, a’ch gwneud yn gaethion i Dduw, ac y mae ffrwyth hyn yn eich meddiant, sef bywyd sanctaidd, a’r diwedd fydd bywyd tragwyddol.

Rhufeiniaid 6: 22

**Bellach mae Timotheus wedi ei ryddhau o garchar felly bydd croeso yn ei ddisgwyl. Dyma’r unig gyfeiriad yn y Testament Newydd i Timotheus gael ei garcharu:**

Y newydd yw fod ein brawd Timotheus wedi ei ryddhau, ac os daw mewn pryd, caf eich gweld gydag ef.

Hebraid 13: 23

## DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Nid yw rhyddid byth i'w gymryd yn ganiataol, a'i bris yw gwyliadwriaeth barhaus.

Trebor Lloyd Evans

Mae gen i freuddwyd y bydd talaith Mississippi hyd yn oed, ryw ddydd, ynys sy'n anial o ormes ac anghyfiawnder, yn cael ei newid i fod yn werddon o ryddid a chyfiawnder.

M. Luther King

Gellir dosrannu'n fras ymdrechion gwareiddiad y Gorllewin i gyfieithu rhinweddau personol yn werthoedd cymdeithasol wrth sôn am y triawd adnabyddus – Rhyddid, Cydraddoldeb a Brawdoliaeth.

Oswald R. Davies

Rhyddid meddwl yw bywyd yr enaid.

Voltaire

Ganed dyn yn rhydd, ac ym mhob man y mae mewn cadwynau.

Rousseau

Genir pawb yn rhydd ac yn gydradd â'i gilydd mewn urddas a hawliau. ...Y mae gan bawb hawl i fywyd, rhyddid a diogelwch.

Hawliau Dynol